# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel

Dyddiad: Dydd Mercher, 17 Ionawr 2024

Amser: 09.18 - 11.28

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13686

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mark Isherwood AS (Cadeirydd)<br>Natasha Asghar AS<br>Mike Hedges AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | Peter Keates, Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol<br>Peter Richards, - Rheolwr Gwasanaethau Rheoliaeth Adeiladu, Profedigaeth a Chofrestru |
| Archwilio Cymru: | Adrian Crompton - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Charles Rigby |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Owain Davies (Ail Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gael eglurhad pellach yn dilyn eu hymateb i argymhellion yr adroddiad ar y cyd, sef 'Craffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru', gan Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd.

### 2.1 Llythyr oddi wrth Iechyd a Gofal Digidol Cymru

## 3 Sesiwn Dystiolaeth - Diogelwch Adeiladau yng Nghymru

3.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Peter Keates, Prif Weithredwr - Rheolaeth Adeiladu Awdurdodau Lleol (LABC) a Peter Richards, Rheolwr Gwasanaethau Rheolaeth Adeiladau, Profedigaeth a Chofrestru - Cyngor Abertawe, fel rhan o'i ymchwiliad i ddiogelwch adeiladau yng Nghymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

4.1 Derbyniwyd y cynnig

## 5 Diogelwch Adeiladau yng Nghymru - Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law.

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.